

Dapagliflozin mewn therapi triphlyg ar gyfer trin diabetes math 2

23 Tachwedd 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir dapagliflozin (Forxiga) ar gyfer trin diabetes math 2 fel rhan o therapi triphlyg â metformin a sulfonylurea.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych ddiabetes math 2 nad yw'n cael ei reoli'n ddigonol â metformin a sylfonylurea, a bod eich meddyg o'r farn mai dapagliflozin yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd dapagliflozin nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Y cyflwr a'r driniaeth

Gyda diabetes, ceir gormod o glwcos (siwgr) yn y gwaed, a gall hyn arwain at broblemau iechyd difrifol. Mae diabetes math 2 yn digwydd pan na all y corff gynhyrchu digon o inswlin (hormon a gynhyrchir gan y corff i reoli lefel y siwgr yn y gwaed), neu pan na all ddefnyddio'r inswlin a gynhyrchir yn gywir.

Mae dapagliflozin yn gweithio drwy rwystro'r arennau rhag ail-amsugno'r siwgr yn y gwaed, gan gynyddu faint o siwgr a waredir o'r corff yn yr wrin. Mae hyn yn lleihau faint o siwgr sydd yn y gwaed.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Diabetes UK](#), 0345 123 2399
- [Sefydliad Ymchwil ac Iechyd Diabetes](#), 0239 263 7808

- [Cymdeithas Diabetes Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig \(BEMDA\)](#),
0207 723 5357
- [Surya Foundation](#), 0208 398 9292

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2315-1